# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

**RHAN 1**

GWELLA LLYWODRAETH LEOL

*Swyddogaethau eraill Archwilydd Cyffredinol Cymru*

**25 Datganiad o arfer**

(1) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru baratoi datganiad o arfer sy'n disgrifio'r ffordd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu arfer y swyddogaethau a ddisgrifir yn is-adran (4).

(2) Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol—

(a) adolygu'r datganiad; a

(b) os yw'r Archwilydd Cyffredinol yn credu ei bod yn briodol ar ôl adolygiad, paratoi datganiad o arfer diwygiedig.

(3) Rhaid i'r datganiad o arfer gydweddu â'r egwyddorion a ddisgrifir yn is-adran (5).

(4) Y swyddogaethau yw'r rhai a roddir i'r Archwilydd Cyffredinol gan—

(a) adran 17 (gwybodaeth am welliannau a chynllunio gwelliannau: archwilio);

(b) adran 18 (asesiadau gwella);

(c) adran 19 (adroddiadau archwilio ac adroddiadau asesu);

(d) adran 23 (cydlynu archwiliad etc);

(e) adran 24 (adroddiadau gwella blynyddol).

(5) Yr egwyddorion yw—

(a) y dylai Archwilydd Cyffredinol Cymru fod yn gyson yn y modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn arfer ei swyddogaethau ymhlith gwahanol awdurdodau gwella Cymreig;

(b) y dylai personau a benodwyd o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 gyflawni eu cyfrifoldebau'n annibynnol;

(c) ei bod yn ddymunol bod swyddogaethau perthnasol y rheoleiddwyr perthnasol a swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a ddisgrifir yn adran 23(7) yn cael eu harfer yn gymesur er mwyn peidio â gosod baich afresymol ar awdurdodau gwella Cymreig;

(d) y dylai'r swyddogaethau yn is-adran (4) gael eu harfer gyda golwg ar gynorthwyo awdurdodau gwella Cymreig i gydymffurfio â gofynion y Rhan hon.

(6) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru anfon copi o ddatganiad neu ddatganiad diwygiedig a baratowyd o dan is-adran (1) at Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

(7) Os caiff y datganiad neu'r datganiad diwygiedig ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi'r datganiad neu'r datganiad diwygiedig.

(8) Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru roi sylw i'r datganiad a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar o dan is-adran (7) wrth arfer y swyddogaethau a ddisgrifiwyd yn is-adran (4).